

DIWYGIO ADDYSG A HYFFORDDIANT ÔL-ORFODOL

Adroddiad ar
Ymgynghoriad Pobl Ifanc

Tachwedd 2017



Uned 4d, Cwm Road, Hafod, Abertawe, SA1 2AY

Ffôn: 01792 466231

E-bost: info@dynamix.coop



@dynamixcoop



Rhif Cwmni Cofrestredig Dynamix 2011: 2413574

Tudalen gynnwys

Adran	Rhif y dudalen
1. Hanes Dynamix a'r ymgynghoriad	3
2. Crynodeb o faterion allweddol	4
3. Cwmpas yr ymgynghoriad	5
4. Methodoleg	6
5. Canlyniadau fesul thema;	13
<i>I. Diogelu, cefnogi a rheoli dysgwyr</i>	13
<i>II. Ehangu Mynediad a chyfranogiad</i>	18
<i>III. Chweched Dosbarth</i>	27
<i>IV. Trefniadau Pontio</i>	29
<i>V. Yr Iaith Gymraeg</i>	32
6. Casgliadau ac argymhellion	35

1. Hanes Dynamix, a'r ymgynghoriad

Menter gymdeithasol Gymreig yw Dynamix sy'n darparu addysg ac yn rhoi llais i bobl ac mae wedi meithrin enw rhagorol yn y maes hwn drwy gydol ei bodolaeth, sy'n ymestyn dros 29 mlynedd. Mae Dynamix yn arbenigo mewn rhoi llais i bobl gan ddefnyddio gweithgareddau cyfranogol i gynnwys pobl.

Gwna Dynamix ddefnydd o weithgareddau ymgynghorol, cyfranogol i sicrhau bod cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn gallu mynegi barn. Defnyddir ystod o dechnegau i ddarparu ar gyfer dewisiadau unigol pob person o ran mynegi barn, boed hynny ar ffurf gorfforol, gweledol, llafar neu ysgrifenedig. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae'r cyfranogwyr yn teimlo'n gysurus ac yn ddigon hyderus i gymryd rhan lawn yn y profiad gan ddefnyddio dull ymgynghori wedi ei hwyluso, i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a bod eu syniadau a'u barn yn cyfrif ac yn cael eu hystyried.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod y wybodaeth yn cael ei chasglu mewn ffordd ansafonol ac felly nid yw dadansoddiad ystadegol yn briodol. Yn lle hynny, mae'n rhoi naratif cyfoethog, ansoddol, cipolwg defnyddiol a gwybodaeth werthfawr, a phrofiad cadarnhaol i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Mae Dynamix yn manteisio ar ystod o weithgareddau a brofwyd dros flynyddoedd lawer.

Ategir methodolegau Dynamix gan ein gwerthoedd ymgysylltu drwy gyfranogiad a mwynhad, parch, cynhwysiant, cydweithrediad a grymuso ynghyd â'r gwerthoedd a'r egwyddorion cydweithredol. Mae Dynamix yn hyrwyddwr cryf dros y 12 Egwyddor Genedlaethol Gymreig ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r 7 Safon Genedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r adran Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) yn Llywodraeth Cymru yn awyddus i symleiddio'r prosesau a'r ffyrdd y gall pobl ifanc gael gwybodaeth am gyfleoedd mewn addysg uwch (AU), addysg bellach (AB), hyfforddiant a phrentisiaethau. Yn dilyn Adolygiad Hazelkorn "Tuag at 2030 - Fframwaith ar gyfer datblygu System Addysg Ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru", nodwyd ei bod yn hollbwysig clywed gan ddysgwyr ac awgrymodd UCM fod angen i lais y dysgwr fod yn gryfach yn yr ymgynghoriad. Mae ymgynghori â'r bobl ifanc y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt yn hollbwysig er mwyn sicrhau cyfnod pontio llyfn a llawn gwybodaeth.

Cafodd Dynamix ei contractio gan Lywodraeth Cymru i gynnwys dysgwyr yn yr ymgynghoriad hwn drwy gynnal cyfres o weithdai ledled Cymru am 8 wythnos yn dechrau ar 4 Medi. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad grŵp olaf ar 23 Hydref 2017.

2. Crynodeb o faterion allweddol

Nodwyd bod **trafnidiaeth** yn broblem i nifer fawr o ddysgwyr y gwnaethom siarad â nhw. Gall newidiadau i ble maent yn mynd i ddysgu roi mwy o bwysau ar ddysgwyr ac ar eu sefyllfa ariannol i allu teithio i leoliadau gwahanol. Byddai darparu trafndiaeth â chymhorthdal i gyd-fynd ag oriau'r amserlen yn helpu i leddfu'r pwysau hyn. Byddai trafndiaeth ddibynadwy, rhad a hygyrch yn hwyluso cyfranogiad.

Mae **cymorth wyneb yn wyneb cyson a medrus** yn cael ei werthfawrogi'n fwy gan y bobl ifanc na'r hyn a ddarperir ar-lein. Byddai cymorth wedi ei strwythuro yn ystod eu hastudiaethau o fudd mawr, gan alluogi unigolion i gael eu cefnogi a'u hannog yn ogystal â nodi pryderon cyn iddynt droi'n broblemau mawr.

Mae angen **gwybodaeth hygyrch** (mewn amrywiaeth o fformatau), am y cyrsiau a seilwaith y gwasanaethau ar bobl ifanc a'u teuluoedd. Dylid darparu hyn cyn ac yn ystod PCET, gan alluogi pobl ifanc i gael cymaint o wybodaeth â phosibl.

Mae'r pryderon **ariannol** yn uchel i bob dysgwr. Bydd angen i unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cynigion hyn sicrhau nad effeithir ar gyllid dysgwyr. Nododd rhai o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw y gall newid mewn amgylchiadau eu gadael heb unrhyw arian ac o ganlyniad byddai hyn yn eu hatal rhag mynd i goleg neu Brifysgol. Nid ystyriwyd bod prentisiaethau na chysiau galwedigaethol yn hyfyw yn ariannol oherwydd y cyflog isel sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau hyn.

Soniodd cyfran uchel o'r dysgwyr fod **diffyg hunanbarch a hyder** yn rhwystr i gael PCET. Dylai unrhyw newidiadau i'w haddysg ddigwydd gan gadw hyn mewn cof. Gallai cynnwys sesiynau meithrin hunanbarch a hyder yn y broses helpu i leddfu'r pwysau ar fyfyrwyr a sicrhau y terfir cyn lleied â phosibl arnynt. Mae angen datblygu hunanbarch a gwydnwch pobl ifanc er mwyn eu helpu i weld PCET fel opsiwn cywir a hyfyw.

Nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ystyried bod **newidiadau i ddewisiadau cyrsiau nac enghreifftiau o gau colegau** yn risg. Mae ganddynt hyder yn y sefydliadau ac nid ydynt yn meddwl y bydd unrhyw beth yn newid. Felly, byddai angen i unrhyw newidiadau a allai effeithio ar unrhyw ddysgwr gael eu cyfleu yn glir fel eu bod yn ymwybodol o unrhyw darfu posibl. Tybiwyd mai cyfrifoldeb y sefydliad fyddai datrys unrhyw broblemau o'r fath.

Ystyriwyd bod yr **iaith Gymraeg** yn bwysig ac y dylai'r Comisiwn newydd ei gwarchod. Byddai hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn fanteisiol gan nad oedd llawer o bobl ifanc yn hoffi'r elfen orfodol ac yn teimlo y dylent fod yn gallu dewis a oeddent am ei hastudio a'i peidio.

Yn aml roedd myfyrwyr **chweched dosbarth** wedi dewis manteisio ar y math o hwn o Addysg Bellach am eu bod yn gwerthfawrogi'r cynefindra a'r cysondeb a oedd yn gysylltiedig ag astudio yn eu hen ysgol. O ganlyniad, roeddent yn poeni ychydig am y ffaith bod y Comisiwn newydd yn chwarae rhan sylweddol yn y ffordd y caiff eu haddysg ei rheoli a'i rhedeg. Roedd hyn ychydig yn wahanol i grwpiau nad oeddent yn gysylltiedig â chweched dosbarth (colegau, prentisiaethau ac ati) gan eu bod yn teimlo y dylai darpariaeth chweched dosbarth fod yn fwy cyson â darparwyr PCET eraill.

3. Cwmpas yr ymgynghoriad


Siaradodd Dynamix ag ystod eang o ddysgwyr o bob rhan o Gymru. Cysylltwyd â mwy na 25 o ysgolion/ colegau ledled Cymru yn ogystal â 10 grŵp nodweddion gwarchoddedig i drefnu ymgynghoriadau. Oherwydd amserlenni'r ymgynghoriad, ac amserlenni prysur mewn ysgolion a grwpiau, cyflawnodd Dynamix yr ymgynghoriadau â'r dysgwyr hynny a oedd ar gael o fewn yr wyth wythnos.

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o'r rhai a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad.

Rhanbarth	Nifer y grwpiau
De-ddwyrain Cymru	1
De a Gorllewin Cymru	8
Gogledd Cymru	3
Canolbarth Cymru	1
CYFANSWM	13

O blith y grwpiau hyn nodwyd bod saith yn grwpiau â nodweddion gwarchoddedig gan gynnwys grŵp Sipsiwn a theithwyr, grwpiau Anghenion Dysgu Ychwanegol, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a rhieni ifanc.

Demograffig	Nifer y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw
O dan 16 oed - blynyddoedd 8, 9 a 10	45
Dros 16 oed - blynyddoedd 11, 12 ac 13	97
Plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal	3
Cymunedau o sipsiwn a theithwyr	18
Rhieni Ifanc	9
Dysgwyr anabl	28
Aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol	5
Addysg Gymraeg	54
Gwryw	77
Benyw	112
CYFANSWM nifer y dysgwyr yr ymgynghorwyd â nhw	199



4. Methodoleg

Gwnaethom ymdrin â'r cwestiynau a'r themâu canlynol. Oherwydd natur gymhleth yr ymgynghoriad cyfredol a'r iaith a ddefnyddiwyd, cafodd y cwestiynau eu dehongli a'u haddasu fel eu bod yn glir i ddysgwyr drwy gael gwared ar unrhyw jargon i'w galluogi i gyfrannu at y meysydd hyn. Ystyriwyd mai'r cwestiynau isod a ddetholwyd oedd y rhai mwyaf priodol i ddysgwyr ymgysylltu â nhw. Darperir pecyn cymorth yn egluro manylion y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i ymgysylltu â dysgwyr yn yr ymgynghoriad hwn ar wahân i'r Adran PCET fel rhan o'r contract hwn.

➤ **Thema: Diogelu, cefnogi a rheoli dysgwyr**

Cwestiynau a ofynnwyd yn yr Ymgynghoriad PCET	Y fethodoleg a'r cwestiynau yr ymdriniwyd â nhw gyda grwpiau o ddysgwyr	Sylwadau
<i>Diogelu buddiannau dysgwyr yn y sector PCET</i>		
8	Ydych chi'n cytuno bod angen cryfhau'r trefniadau i ddiogelu dysgwyr sy'n astudio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru?	<p><u>Deall PCET a'r diwygiadau</u></p> <p>Cyn i ni allu dechrau ymdrin â'r cwestiynau ynghylch diwygio PCET roedd angen egluro'r diwygiadau mewn ffordd syml, heb jargon gyda</p> <p>Roedd y cwestiynau hyn yn ddieithr i bobl ifanc. Nid oedd pryderon ynghylch cau coleg, neu gwrs yn newid neu'n dod i ben yn ystod y cyfnod astudio yn broblem i bobl ifanc gan nad oeddent yn credu bod hyn yn debygol o ddigwydd - roeddent yn teimlo'n</p>

9	Os ydych chi, pa drefniadau y dylid eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr na allant barhau i astudio eu cwrs gyda'r darparwr o'u dewis oherwydd bod y cwrs yn dod i ben, bod campws yn cau neu oherwydd methiant darparwr?	dysgwyr. Cyflawnwyd hyn drwy gyflwyniad syml a thrwy roi PCET dan y chwyddwydr fel y gallai dysgwyr ofyn cwestiynau am y sector a'r diwygiadau arfaethedig. Gwnaethom ddefnyddio gweithgaredd i edrych ar rwystrau rhag manteisio ar PCET ac atebion i'r rhwystrau hynny.	ddiogel o fewn y sefydliad addysg yr oeddent wedi ei ddewis. Roedd eu pryderon ynghylch rhoi'r gorau iddi yn ymwneud ag amrywiaeth o resymau eraill.
10	A ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch sydd wedi'u dynodi i dderbyn cymorth statudol i fyfyrwyr yng Nghymru gynnwys cynlluniau diogelu myfyrwyr yn eu Cytundebau Deilliannau?		
<u>Cefnogi myfyrwyr sy'n dymuno newid cwrs neu ddarparwr</u>			
11	Pa gymorth sydd angen ei ddarparu ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno newid cwrs neu ddarparwr?	Yn dilyn trafodaeth ynghylch rhwystrau ac atebion, roeddem yn gallu trafod â dysgwyr y mathau o gymorth y byddai eu hangen arnynt petaent am newid cwrs neu ddarparwr.	Nid yw pobl ifanc yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer newid cwrs neu ddarparwr ac nid ydynt yn hollol glir â phwy y dylent siarad nac o ble y dylent gael gwybodaeth.
12	Pa rôl, os o gwbl, y dylai'r Comisiwn newydd ei chael o ran sicrhau bod trefniadau ar waith i hwyluso trefniadau trosglwyddo myfyrwyr a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r trefniadau hyn ymysg dysgwyr?	Cafwyd trafodaeth ynghylch cyfrifoldeb pwy oedd hwyluso newidiadau - gwnaeth y grwpiau bleidleisio ar hyn.	Nid oedd y grwpiau yn ymwybodol o'r Comisiwn newydd a'i gyfrifoldebau, felly roedd yn anodd iddynt ateb a ddylai'r Comisiwn ymgymryd â rôl mewn trefniadau.

➤ Thema: Ehangu Mynediad a chyfranogiad

Cwestiynau a ofynnwyd yn yr Ymgynghoriad PCET		Y fethodoleg a'r cwestiynau yr ymdriniwyd â nhw gyda grwpiau o ddysgwyr	Sylwadau
<i>Ehangu Mynediad a Chyfranogiad(team photo)</i>			
21	Pa gamau, os o gwbl, sydd angen eu cymryd i hyrwyddo rhagor o gyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, yn enwedig ymysg unigolion o grwpiau difreintiedig a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?	<p><u>Archwilio llwybrau mewn addysg</u></p> <p>Gwnaethom archwilio llwybrau dysgu gyda'r grwpiau er mwyn creu darlun o pam, sut, ble a phryd roeddent yn dysgu?</p> <p>Arweiniodd hyn at drafodaeth a nodi'r rhesymau mwyaf dros aros mewn PCET a'u hawgrymiadau gwych ar gyfer aros mewn PCET.</p>	Weithiau, roedd hyn yn anodd i grwpiau ei ateb os nad oeddent wedi cael profiad o PCET. Fodd bynnag, drwy archwilio eu llwybrau dysgu eu hunain a manteisio ar brofiadau yr oeddent wedi clywed amdanynt gan ffrindiau a theulu roeddent yn gallu nodi materion a allai effeithio arnynt.
22	Sut y gallwn sicrhau bod mwy o fyfyrwyr sy'n perthyn i'r grwpiau hyn yn aros ar gyrsiau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac yn eu cwblhau?		
<i>Ehangu Mynediad a Chyfranogiad yn y sector PCET</i>			
24	A ddylid gosod dyletswydd ar sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch i gyhoeddi data ar gyfraddau ymgeisio, derbyn a chynnydd myfyrwyr ar sail rhyw, ethnigrwydd a chefnidir economaidd-gymdeithasol, a chyflwyno'r	Trafodwyd hyn o ran tegwch a chymerwyd gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cwestiwn hwn o rwystrau i PCET. Os ystyrir bod y pethau hyn yn rhwystr i ddysgwyr yna dylai'r data hyn gael eu darparu er mwyn sicrhau na fydd	Roedd hyn yn arbennig o wir i'r rhai o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

	data i'r Comisiwn?	unrhyw wahaniaethu.	
--	--------------------	---------------------	--

➤ **Thema: Chweched Dosbarth**

	Cwestiynau a ofynnwyd yn yr Ymgynghoriad PCET	Y fethodoleg a'r cwestiynau yr ymdriniwyd â nhw gyda grwpiau o ddysgwyr	Sylwadau
25	A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a monitro darpariaeth chweched dosbarth? Os felly, beth yw'ch rhesymau	Er mwyn deall sut roedd y dysgwyr yn teimlo ynghylch y chweched dosbarth, gwnaethom ofyn iddynt ddisgrifio'r gwahaniaethau a welsant rhwng y chweched dosbarth a sefydliadau eraill. Yna pleidleisiodd y grwpiau ar b'un a ddylid cynnwys chweched dosbarth.	I rai pobl ifanc sydd am aros yn yr ysgol, mae'r chweched dosbarth yn lle sy'n cynnig parhad a diogelwch iddynt. Mae hyn yn arbennig o wir os ydynt yn dioddef o orbryder neu straen sy'n gysylltiedig â newidiadau yn eu bywyd, fel mynd i rywle newydd i astudio. Byddai rhoi'r cyfrifoldeb hwn ar gontract allanol o bosibl yn golygu y byddai'r chweched dosbarth yn newid ac yn ymdebygu mwy i goleg - drwy edrych ar y gwahaniaethau hyn roedd y bobl ifanc yn gallu nodi elfennau gwahanol a oedd yn gweithio iddyn nhw.
26	A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn gyflawni unrhyw swyddogaeth arall mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth, er enghraifft, cofrestru darparwyr, sicrhau a gwella ansawdd, a llywodraethu? Os felly, nodwch eich rhesymau?	Er mwyn ystyried rôl y Comisiwn gwnaethom ddefnyddio system bleidleisio a oedd yn caniatáu i'r bobl ifanc bleidleisio; Dylid, Na ddylid, Efallai	Nid yw'r bobl ifanc yn gofidio mewn gwirionedd am rôl gyffredinol y Comisiwn, maent am barhau â'u haddysg yn ôl eu bwriad gyda chyn lleied o darfu neu newid â phosibl. Pan ofynnwyd y cwestiynau hyn cafodd y grwpiau drafferth i'w hateb gan eu bod mor bell o'r hyn y mae'n ei olygu mewn gwirionedd. Nid oes gan y rhai nad ydynt mewn PCET syniad o'r gwahaniaethau

			rhwng coleg a chweched dosbarth gan nad ydynt wedi bod i'r naill na'r llall. Cafodd y rhai mewn chweched dosbarth neu goleg drafferth i ateb y cwestiwn hwn gan eu bod eisoes wedi penderfynu ar y naill neu'r llall.
27	A ydych chi'n credu y byddai'n well sefydlu'r Comisiwn heb gynnwys darpariaeth chweched dosbarth yn ei gylch gwaith, gyda'r opsiwn o wneud hynny yn ddiweddarach?		Roedd pobl ifanc mewn chweched dosbarth mewn sefyllfa well i ateb y cwestiwn hwn.

➤ **Thema: Trefniadau Pontio**

Cwestiynau a ofynnwyd yn yr Ymgynghoriad PCET		Y fethodoleg a'r cwestiynau yr ymdriniwyd â nhw gyda grwpiau o ddysgwyr	Sylwadau
<i>Trefniadau pontio - Paratoi'r ffordd i weithredu</i>			
31	Bydd diogelu buddiannau dysgwyr ac amharu cyn lleied â phosibl ar ddarparwyr yn dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer y cyfnod pontio. A oes angen ystyried unrhyw faterion eraill?	<u>Effaith modelau newydd</u> Gwnaethom edrych ar sut olwg sydd ar PCET nawr a sut olwg allai fod arno yn y dyfodol yn dilyn y diwygiadau.	Cymerwyd y canlyniadau yn yr adran hon o bryderon a godwyd gan y grwpiau â nodweddion gwarchodedig penodol yn ogystal â themâu cyffredinol a nodwyd gan bob grŵp.
32	Er mwyn helpu i lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a allwch chi ragweld	Trafododd y dysgwyr eu	

	<p>unrhyw effaith benodol ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig (yn unol ag ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a sut y gallent gael eu heffeithio'n benodol gan y cynigion hyn?</p> <p>Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?</p>	<p>gobeithion a'u hofnau, eu dymuniadau a'u pryderon am PCET, eu haddysg barhaus a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Gwnaeth y grwpiau hefyd bleidleisio ar b'un a fyddai'n well ganddynt weld newid cyflym neu araf dros amser.</p>	
--	--	--	--

➤ **Thema: Yr Iaith Gymraeg**

	Cwestiynau a ofynnwyd yn yr Ymgynghoriad PCET	Y fethodoleg a'r cwestiynau yr ymdriniwyd â nhw gyda grwpiau o ddysgwyr	Sylwadau
33	<p>Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:</p> <p>i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>Pa effeithiau a fyddai yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau</p>	<p>Trafododd dysgwyr pa mor bwysig oedd opsiynau Cymraeg iddyn nhw yn eu haddysg a phleidleisiwyd ar hyn.</p>	<p>Mae'r canlyniadau yn yr adran hon yn dibynnu i raddau helaeth ar y grŵp - mae'r rhai sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn frwdfrydig iawn ynghylch yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, gwnaeth llawer o'r rhai nad ydynt mewn addysg cyfrwng Cymraeg hefyd ddangos cefnogaeth i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu Cymraeg. Ond roedd eraill yn meddwl bod hyn</p>

	negyddol?		yn faich ychwanegol - yn enwedig i'r rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
34	<p>Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:</p> <p>i) cael effeithiau positif neu gael effeithau positif ychwanegol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a</p> <p>ii) peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		

5. Canlyniadau fesul thema

1. Diogelu, cefnogi a rheoli dysgwyr

Deall PCET a'r diwygiadau

Cyn i ni allu dechrau ymdrin â'r cwestiynau ynghylch diwygio PCET roedd angen egluro'r diwygiadau mewn ffordd syml, heb jargon gyda dysgwyr. Cyflawnwyd hyn drwy gyflwyniad syml a thrwy roi PCET dan y chwyddwydr fel y gallai dysgwyr ofyn cwestiynau am y sector a'r diwygiadau arfaethedig.


Rhwystrau i PCET ac atebion i'r rhwystrau hyn

Er mwyn casglu barn ar ba gymorth sydd ei angen ar ddysgwyr roedd angen deall pa rwystrau roedd dysgwyr yn eu hwynebu wrth ymgymryd â PCET. Er mwyn gwneud hyn gwnaethom ddefnyddio dull o'r enw 'Brics yn y wal'. Nododd y dysgwyr unigol a fu'n rhan o'r ymgynghoriad hwn dros 400 o rwystrau i ymgymryd â PCET.



Coladwyd y canlyniadau fesul thema. Fel y gellir gweld o'r tabl, y rhwystr mwyaf i bobl ifanc yw un ariannol.

Mae hyn yn cynnwys pryderon ynghylch talu ffioedd, trafndiaeth, gofal plant a gallu cynnal eu hunain.



Ar ôl i ni drafod y rhwystrau a wynebwr wrth ymgymryd â PCET gwnaethom drafod atebion posibl i'r rhwystrau hyn drwy gyflwyno'r syniad o oresgyn rhwystrau a meddwl am wneud pethau mewn ffordd wahanol.

Canolbwyntiodd llawer o'r atebion hyn ar unigolion yn gwneud pethau drostynt hwy eu hunain er mwyn goresgyn y rhwystrau, fel annog eraill i ymdrechu mwy, cynilo eu harian eu hunain, edrych am ffyrdd newydd o wneud pethau, gofyn i eraill am help neu ymchwilio'n well i'r opsiynau. Prin oedd yr atebion a nododd sefydliadau penodol i ddarparu cymorth. Roedd y rhai a grwybwyllwyd yn cynnwys y system ofal, y Brifysgol Agored, UCAF a chefnogaeth gan athrawon.

Yn dilyn y trafodaethau hyn, gofynnwyd y cwestiwn canlynol er mwyn mynd i'r afael â chwestiynau 8, 9 a 10 o'r ymgynghoriad gwreiddiol;

Cwestiwn; 'Os bydd eich cwrs yn dod i ben pa gymorth sydd ei angen arnoch i barhau i astudio?'

Nid oedd nifer sylweddol o bobl ifanc yn deall y rheswm pam roedd y cwestiwn hwn yn cael ei ofyn iddynt gan nad oeddent wedi cael unrhyw brofiad o'r fath ac nad oeddent wedi ystyried y gallai hyn ddigwydd.

Siaradodd myfyrwyr o lawer o grwpiau am y cynlluniau manwl roeddent eisoes wedi'u gwneud ar gyfer eu haddysg yn y dyfodol;

'Rwyf am fynd i'r chweched dosbarth ac yna i'r brifysgol ond gwneud yn dda yn fy arholiadau TGAU yn gyntaf. Rwyf am weithio fel achubwr bywydau ar gyfer yr RNLI'

'Rwyf am lwyddo yn fy arholiadau TGAU a chael A ac A yn unig, byddaf yn aros yn y chweched dosbarth i astudio Hanes, Ffrangeg a llenyddiaeth Saesneg ac yna'n mynd i brifysgol dda fel Bryste ac astudio llenyddiaeth Saesneg a Ffrangeg, yna byddaf yn gwneud cwrs trosi mewn hawliau dynol a dod yn gyfreithwr hawliau dynol'*

Nid oedd dysgwyr yn disgwyl i gyrsiau gau na newid ac nid oeddent ychwaith yn disgwyl i ddim darfu arnynt. Nid yw'r rhai sydd am barhau mewn addysg bellach hyd yn oed yn barod i ystyried y caiff y cwrs ei newid neu y daw i ben.

Fodd bynnag, y rhai a oedd yn rhagweld problemau posibl gyda'u cwrs oedd y rhai, yn aml, a oedd eisoes yn cael trafferth gyda'r system addysg ac a oedd ychydig yn fwy ymwybodol efallai o'r problemau a all godi;

'Mae rhai darparwyr hyfforddiant yn mynd i'r wal neu'n newid eu henw sy'n golygu ei bod yn anodd gwybod beth i'w wneud (grŵp o bobl ifanc sy'n gadael gofal)'

Mae llawer o'r farn mai addysg bellach yw'r unig ffordd o gyflawni'r yrfa a gynlluniwyd ganddynt. Byddai cael mwy o wybodaeth am yr amrywiaeth eang o opsiynau sydd ar gael yn helpu i leddfu rhywfaint o'r pwysau hyn;

Fy mhryder i yw 'Na fyddaf yn cael lle mewn prifysgol sy'n golygu na fyddaf yn dilyn yr yrfa rwyf am ei chael, na fyddaf yn cael swydd dda ac na fyddaf yn llwyddo mewn bywyd'

(Grŵp coleg dros 16 oed)

Roedd yn glir bod gan fyfyrwyr o rai ysgolion fwy o bryderon ynghylch peidio â chyflawni'n academaidd;

'Pwysau, pobl am gael cynllun penodol a theulu am iddynt gael y graddau gorau' (Rhwyrstr i PCET)

'Na allaf gyflawni'r disgwyliadau sy'n codi drwy'r amser' (Yn poeni am fy addysg)

'Na fyddaf yn gallu delio â straen astudio a'r ysgol, y byddaf yn dechrau mynd i lawr y llwybr anghywir ac yn hunanddinistrio' (Yn poeni am fy addysgu)

(I gyd yn ddyfyniadau gan un grŵp)

Roedd gan grwpiau eraill bryderon hefyd ynghylch peidio â chyflawni mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys;

Rwy'n poeni 'Nad yw fy rhieni yn falch ohonof, nad oes gen i ddigon o arian ar gyfer y Brifysgol eto, fy mod yn cael fy nghymharu â phobl sy'n well na fi bob amser' (Yn poeni)

Mae hyn yn arwain at ddisgwyliadau uchel gan lawer ohonynt i gyflawni graddau uchel yn ogystal â disgwyliadau uchel o'r dewisiadau addysg bellach a wnânt. Nid ydynt yn credu y bydd y sefydliadau hyn yn eu siomi ac fel y cyfryw, nid oes ganddynt fawr ddim syniad sut y gellid eu helpu pe bai hyn yn digwydd.

Codwyd pryderon gan nifer o ddysgwyr ynghylch p'un a fyddant yn mwynhau addysg bellach ac a fydd yn bodloni eu disgwyliadau neu y byddant yn dewis y cwrs anghywir oherwydd prinder gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael:

'Rwy'n poeni na fyddaf yn hapus yn y brifysgol' (Yn poeni am PCET)

'Efallai na fyddaf yn hoffi'r cwrs' (Yn poeni am PCET)

'Ddim yn siŵr pa gwrs i'w ddewis' (Rhwyrstrau i aros mewn PCET)

'Nid yw eich cwrs yn arwain at swydd' (Rhwyrstrau i aros mewn PCET)

Fel y gwelir o'r siart uchod mae myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o'r gost a'r dyledion dilynol a fydd yn rhan o'u dyfodol ac fel y cyfryw maent yn disgwyl i sefydliadau Addysg Bellach fod o ansawdd uchel, yn bodloni'r lefel uchel o waith y bydd yn rhaid iddynt ei wneud ar y cwrs.

*'Rwy'n poeni y bydd ffioedd myfyrwyr yn codi er gwaethaf erthyglau newyddion diweddar'
(Dymuniadau a Gofidiau)*

'Os af i'r brifysgol byddaf mewn dyled am weddill fy mywyd' (Dymuniadau a Gofidiau)

Mae gan y rhai sy'n gadael gofal yn ifanc bryderon ariannol sylweddol, sydd yn ei dro yn cael effaith wirioneddol ar b'un a allant gael gafael ar PCET a pharhau i astudio;

'Nid yw LCA yn ddigon - yn enwedig pan fyddwch mewn gofal, neu rydych yn byw ar un myffin y dydd yn y coleg (£1)'

'Yn rhy ddrud, £4-£5 y dydd am fwyd a thrafnidiaeth a phopeth arall'

'Y sefyllfa ariannol oedd y rheswm dros roi'r gorau iddi'

(Y prif resymau dros roi'r gorau i PCET - Grŵp Ffocws Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal)

Nid oes gan lawer o bobl ifanc o grwpiau difreintiedig yng Nghymru yr un awydd i fynd i'r brifysgol. Gallai hyn fod oherwydd diffyg cyfle, cyfyngiadau daearyddol a chyfyngiadau ariannol.

*'Dim digon o arian, dim ffrindiau yn mynd, problemau teuluol, rhy bell i ffwrdd'
'fy rhieni yn fy atal rhag mynd i'r coleg/gwaith am eu bod am i mi aros yn agos i gartref'*

(Rhwystrau i PCET)

Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn wynebu colled ariannol os caiff cyrsiau eu newid neu eu canslo. Mae llawer wedi goresgyn rhwystrau niferus i allu ymgymryd â PCET, ac mae'r rhain yn cynnwys rhwystrau diwylliannol, teithio, pryder a diffyg hunanhyder. Byddai diogelu dysgwyr sy'n ymgymryd â PCET yn golygu y byddai pobl ifanc yn mynd ymlaen i addysg bellach gyda mwy o hyder gan wybod y byddent yn cael eu diogelu pe bai rhywbeth yn digwydd i'w cwrs.

Bu'n anodd i bobl ifanc ateb y cwestiwn hwn, am nad oeddent o'r farn bod hyn yn agwedd ar PECT yr oedd angen iddynt hwy ymwneud â hi ac mai cyfrifoldeb y darparwyr eu hunain oedd hyn. Felly, nid oedd gan bobl ifanc ymdeimlad o ba drefniadau ddylai fod ar waith i'w diogelu.

Fodd bynnag, roedd 65% o'r rhai a atebodd yn teimlo mai cyfrifoldeb darparwr y cwrs oedd datrys problemau ac roedd 33% yn teimlo mai eu cyfrifoldeb nhw oedd hynny. Roedd y sylwadau a wnaed yn cynnwys;

'Eu bai nhw ydyw'

'Dylai fod rhyngoch chi a'r coleg'

'Gwnaethon nhw eich derbyn felly gallan nhw ddatrys y broblem'

Soniwyd llawer am sicrhau bod cymorth ar gael i fyfyrwyr tra roeddent yn astudio, oherwydd pe bai gan fyfyrwyr rywun i droi ato am gyngor a gwybodaeth yna byddai'n golygu eu bod yn gwybod sut i ddatrys unrhyw broblemau yr oeddent yn gofidio eu cylch. Mae cyfathrebu'n hollbwysig er mwyn sicrhau y gellir datrys unrhyw broblemau sy'n codi yn ystod cwrs cyn gynted â phosibl. I rai grwpiau o bobl ifanc, teimlir y pryder ynghylch diffyg cymorth yn fwy gan eu bod wedi cael cryn dipyn o gymorth drwy gydol eu haddysg hyd at y pwynt hwnnw. Roedd y cymorth a nodwyd yn cynnwys;

'Cyfathrebu gwell rhwng pob parti perthnasol'

'Dylid gwella'r bwrsariau i gefnogi myfyrwyr'

'Diffyg cymorth'

'Dryswch - cyrsiau/popeth'

'Cymorth gwell gan y ganolfan gwaith - cymorth parhaus ar ôl i'r cwrs hyfforddiant ddod i ben - mwy o hyfforddiant i oedolion a grantiau i dalu amdanynt' (Dymuniadau ar gyfer PCET)

'Ôl-18 beth rydym yn ei wneud? Rwyf mewn gofal felly mae llai o gymorth ar ôl i chi gyrraedd 18 oed' (Dymuniadau ar gyfer PCET)

'Cymorth ychwanegol - neu sut i gael gafael arno - mae ar gael i bobl ac mae'n hysbys iddynt. Dylid trefnu cyfarfodydd cyson â thiwtoriaid a chynnig mwy o arweiniad' (Awgrymiadau gwych ar gyfer aros mewn PCET)

Roedd un grŵp yn teimlo y dylai darparwyr gwasanaethau wneud eu gorau i ddarparu llwybrau astudio amgen pe bai eu cwrs yn cael ei ganslo neu ei newid. Os nad oedd hyn yn bosibl, awgrymodd rhai y dylid cynnig dewisiadau amgen ar-lein neu ddysgu o bell am ddim fel nad oedd pobl ifanc yn colli allan.

Roeddent yn teimlo, pe bai newidiadau'n cael eu gwneud i leoliadau am unrhyw reswm, y dylai darparwyr gwasanaethau dalu costau trafnidiaeth i'r lleoliad hwnnw (o bosibl â chymhorthdal gan Lywodraeth Cymru).

Roeddent yn teimlo y dylai cyngor fod ar gael i unrhyw un sydd wedi mynd drwy'r newid hwn a chanllawiau ar ba gamau i'w cymryd ar ôl i'r cwrs gael ei ganslo neu ei newid. Gallai cymorth gael ei gynnig gan weithiwr dynodedig neu gallai ffynhonnell ddibynadwy roi canllawiau ar-lein.

Roedd myfyrwyr yn teimlo y dylai darparwyr gwasanaethau gysylltu â chymorth gan Lywodraeth Cymru er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar addysg y dysgwr.

II. Ehangu Mynediad a chyfranogiad

Rhwystrau ac atebion i PCET

Fel y trafodwyd uchod, edrychodd rhan o bob sesiwn ar rwystrau i PCET ac atebion posibl i oresgyn y rhwystrau hyn. Diben hyn oedd nodi'r camau gweithredu a ystyrir yn ffyrdd o annog mwy o gyfranogiad gan bobl ifanc.

Yn yr adran hon, rydym yn dadansoddi'r canlyniadau yn ôl grwpiau er mwyn dangos y camau gweithredu a nodwyd gan y bobl ifanc. O hyn, mae'n bosibl gweld beth sydd ei angen i annog cyfranogiad mwy yn y sector PCET gan unigolion o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

➤ Plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal

Nodwyd gan y grŵp hwn bod angen gwella cyfleoedd o ran prentisiaethau. Roedd y grŵp hwn o bobl ifanc yn blaenoriaethu dewisiadau a fydd yn gwneud arian iddynt yn y dyfodol agos gan na allant ddibynnu yn aml ar deuluoedd i'w cefnogi na rhoi cartref iddynt wrth iddynt astudio. Roedd llawer o'u rhwystrau yn canolbwyntio ar gost a phris byw.

Roeddent yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol pe bai darparwyr gwasanaethau yn dilyn yr un canllawiau â'i gilydd a chael rheolau a gweithdrefnau tebyg er mwyn peidio â drysu unrhyw un a oedd yn chwilio am yr opsiynau gorau. Awgrymwyd hefyd y dylai mwy o wybodaeth fod ar gael iddynt, yn ddelfrydol mewn un lle, naill ai mewn gwefan ganolog neu mewn hwb gwybodaeth yn ganolog.

Ystyriwyd hefyd fod trafndiaeth yn rhwystr i lawer o'r bobl ifanc a oedd yn dibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus i'w cludo i fannau ac yn aml, roeddent yn hwyr i'r coleg neu leoliad am fod y bysiau yn llawn neu'n rhedeg yn hwyr. Awgrymwyd y dylid trefnu bod mwy o fysiau ar gael a chynnig trafndiaeth am ddim i bobl, yn enwedig y rhai ar incwm isel.

Ni soniodd neb a oedd yn gadael gofal am brifysgol - eu blaenoriaethau nhw yw ennill arian i dalu costau byw.

Mae'r **AWGRYMIADAU GWYCH** er mwyn helpu'r rhai sy'n gadael gofal i aros mewn PCET a nodwyd gan y grŵp hwn yn cynnwys;

- 1) *Ei wneud yn werth chweil.*
- 2) *Datrys y sefyllfa arian parod.*
- 3) *Gwneud y cyrsiau'n fwy perthnasol.*
- 4) *Mwy o gyfleoedd am swyddi a phrentisiaethau i rai dan 18 oed yn benodol.*
- 5) *Gwneud addysg i rai dan 16 oed yn fwy perthnasol i bobl sydd â mwy o ddiddoreb mewn gweithio.*
- 6) *Mwy o wybodaeth am swyddi ymarferol, ac yn y ffordd hon gallwch wneud eich penderfyniadau a blaenoriaethu.*
- 7) *Help a chyngor ar ysgrifennu C.V. ac ati, rhywfaint o gymorth ar hyn o bryd, ond ddim digon.*

- 8) Mae angen i lywodraethau lunio cymhellion i gwmnïau rhyngwladol gyflogi pobl dan 18 oed a chynnig prentisiaethau.
- 9) Gallai addysg fod yn fwy cynhwysol - llai o anghyfartaledd rhwng addysg brif ffrwd ac addysg cymorth ychwanegol.

➤ **Cymunedau o sipsiwn a theithwyr**

Mae gwahaniaethau diwylliannol yn chwarae rhan fawr ym mhenderfyniad rhai pobl ifanc o'r gymuned o sipsiwn a theithwyr i ymgymryd â PCET.

'Diwylliant - Ddim cymaint o bwys ar addysg (yn enwedig i ferched ifanc)'

'Mewn rhai diwylliannau, mae'n rhaid i ferched briodi yn ifanc iawn, pan fyddant yn 17 neu 18 oed'

'Dim llawer o ddealltwriaeth yn fy mywyd i nac yn fy ngwlad i o'r blaen'

'Ni fydd y teulu am i chi ei adael.'

Mae llawer o bobl ifanc am barhau â PCET ond yn teimlo bod pwysau gan rieni i aros gartref, priodi a pheidio â rhoi pwys ar addysg i ferched yn peri rhwystr mawr. Fodd bynnag, soniwyd am fod yn agored a gonest gyda'u teuluoedd er mwyn eu helpu i ddeall pwysigrwydd PCET tra'n parchu traddodiadau ond gan werthfawrogi addysg hefyd;

'Ceisio eu perswadio a'u hargyhoeddi drwy ddweud pa mor llwyddiannus yw addysg bellach a sut y gall eich helpu i lwyddo mewn bywyd'.

'Mae'n rhaid i ni barchu ein gilydd, ni waeth beth fo'r cefndir'.

'Peidio â rhoi'r gorau i draddodiadau, ond cyd-drafod â rhieni, a chael sgwrs dda'.

Bydd sicrhau bod PCET ar gael yn lleol i rai pobl ifanc yn golygu'r gwahaniaeth rhwng mynychu AB neu fynd yn syth i weithio.

Os bydd pobl ifanc yn wynebu anawsterau academaidd yn yr ysgol, neu'n cael adborth negyddol gan athrawon, bydd hyn yn effeithio ar eu hunanwerth a'u hunanbarch, sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o ddilyn llwybr sy'n cynnwys PCET. Mae diffyg hyder yn eu galluoedd academaidd eu hunain yn rhwystr sylweddol. Bydd barn eraill ar eu gallu i lwyddo, ai peidio, yn cael dylanwad enfawr ar sut maent yn teimlo y byddant yn gwneud. Roedd y rhwystrau a nodwyd gan y grŵp hwn yn cynnwys:

'Pobl yn dweud wrthy ch nad ydych yn ddigon da'

'Athrawon yn dweud wrthy ch nad yw eich Saesneg yn ddigon da'

'Ddim yn ddigon peniog, arholiadau yn rhy galed'

Mae gan lawer o bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw ddyheadau uchel ar gyfer y dyfodol gan gynnwys;

'Cael addysg dda, ym Mharis gobeithio'

'Hoffwn fynd i'r chweched dosbarth' 'Hoffwn fod yn rhywun o bwys yn y dyfodol'

'Hoffwn fod yn farbwr'

'Hoffwn fynd i'r chweched dosbarth a'r brifysgol iawn' 'Ar ôl gorffen yn y brifysgol hoffwn ddod yn nyrs neu ddyluniwr neu fodel'

'Hoffwn ddod yn blismones'

'Mynd i'r chweched dosbarth a mynd i'r brifysgol, dyfodol da, tai hardd'

Gan nad oedd ganddynt unrhyw brofiad o fod mewn PCET gwnaeth y grŵp hwn lunio rhestr o'r **prif bethau sy'n atal pobl ifanc o gymunedau o sipsiwn a theithwyr rhag ymgymryd â PCET;**

- 1) Nid yw pobl yn neis iawn / myfyrwyr eraill.
- 2) Ddim yn deall / yn rhy galed.
- 3) Am gael gyrfa yn lle hynny, bydd cyfleoedd yn codi.
- 4) Mam a Dad.
- 5) Mae'n ddiflas.
- 6) Mae dihuo yn ymdrech.
- 7) Rwy'n teimlo fel oedolyn ac yn cael fy nhrin fel plentyn yn y coleg/ysgol.
- 8) Mae fy ffrindiau yn snobyddlyd / llawn ohonynt eu hunain.
- 9) Ymladd.
- 10) Athrawon llym.
- 11) Pwysau gan gyfoedion.
- 12) Trafferth pob dydd.
- 13) Anawsterau gydag athrawon.
- 14) Arian ar gyfer cael y dillad ffasiynol, ffôn diweddaraf ac ati.

➤ **Rhieni ifanc**

Y prif rwystrau i rieni ifanc a oedd yn ymgymryd â PCET oedd arian, diffyg gwybodaeth, cael plant bach, hyder a thrafnidiaeth. Roedd rhai o'r aelodau yn y grŵp hwn wedi bod yn y coleg pan aethant yn feichiog a gofynnwyd iddynt adael eu cyrsiau galwedigaethol am resymau iechyd a diogelwch. Eu prif flaenoriaeth oedd darparu ar gyfer eu plant ac fel y cyfryw nodwyd y byddent yn cael trafferth i ymgymryd â PCET gan na fyddent yn cael digon o arian i dalu costau gofal plant ac astudio.

'Gan fy mod o dan 25 oed doeddwn i ddim yn gallu hawlio credyd treth. Dim ond swm penodol o fudd-daliadau y gallwch eu hawlio os ydych yn astudio. Beth yw'r pwynt, bydden i'n gwneud y cyfan am ddim byd'

Nid ystyriwyd bod cyrsiau galwedigaethol na phrentisiaethau yn opsiwn chwaith gan nad oeddent yn darparu digon o gymorth ariannol i deulu;

'Dim ond £3.40 yr awr a delir ar gyfer prentisiaeth yn y flwyddyn gyntaf - alla i ddim fforddio hynny. Roeddwn yn gweithio'n llawn amser ac ond yn ennill £800 y mis. Mae'r dreth gyngor yn £65 y mis ac mae'n rhaid i chi dalu £75 ymlaen llaw bob mis i dalu am docyn bws i'r coleg. Alla i ddim ei fforddio o gwbl.'

Materion eraill a godwyd gan rieni ifanc oedd nad oeddent yn gwybod beth oedd ar gael nac argaeledd cyrsiau yn lleol er mwyn gallu rheoli trefniadau gofal plant. Cytunodd y grŵp y byddent am ddychwelyd i PCET ac ennill cymwysterau, neu grefft, ond nad oeddent am golli datblygiad eu plentyn yn y blynyddoedd cynnar. Wrth wraidd yr ymgynghoriad roedd y ffaith eu bod yn rhieni, a'u prif bryder oedd lles eu plant, a gwnaethant ateb y cwestiynau gan roi anghenion eu teulu yn gyntaf.

Yr **AWGRYMIADAU GWYCH** a nodwyd gan y grŵp hwn ar gyfer rhieni ifanc sy'n ymgymryd â PCET yw;

- 1) Ewch yn ôl i ddysgu pan fyddwch yn barod.
- 2) Mwy o help gydag arian.
- 3) Dileu cyfyngiadau arian ar gyfer cymorth ariannol.
- 4) Mwy o staff cyfeillgar.
- 5) Mae angen i golegau fod yn fwy hyblyg i bobl â phlant - yn enwedig os yw'r plant yn sâl ac ati.
- 6) Mae angen i gyrsiau galwedigaethol dalu costau byw.
- 7) Cymorth gyda gofal plant os bydd rhywun yn astudio y tu allan i oriau coleg - anodd astudio gartref.

➤ **Dysgwyr anabl**

Mae llawer o bobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn sôn am eu hymddygiad eu hunain fel rhwystr i PCET; teimlo'n 'rhwystredig', 'dig', 'wedi cynhyrfu', 'wedi gwylltio', a 'methu ymdopi'. Codwyd hyder, pryder a diffyg diddordeb yn yr ysgol hefyd fel rhwystrau i lawer o ddysgwyr ag anghenion ychwanegol.

Rhwystr arall yw byw yn yr ardal anghywir o ran gallu manteisio ar gyrsiau. Os oes ganddynt anghenion ychwanegol efallai na fydd ganddynt yr hyder na'r gallu i deithio ar eu pen eu hunain ar drafnidiaeth gyhoeddus - bydd dibynnu ar rieni yn golygu na fyddant efallai yn gallu cyrraedd y coleg o gwbl, yn enwedig os nad oes grantiau ar gael tuag at gostau trafnidiaeth.

Mae'n amlwg bod diffyg ymwybyddiaeth o'r opsiynau eraill sydd ar gael; sonnir am 'ddim digon o ddewisiadau' fel rhwystr. Efallai na fydd gan bobl ifanc yn y coleg hwn ddigon o wybodaeth am ba PCET sydd ar gael. Mae'n bwysig gofyn a oes disgwyl i'r bobl ifanc hyn gyflawni. Os oes ganddynt

broblemau dicter neu ymddygiad, efallai eu bod yn cael y neges na fyddant yn gallu cwblhau unrhyw PCET. Diffyg cred o bosibl y gall y bobl ifanc hyn wireddu eu breuddwydion o ran cyflogaeth, a dangosir hyn nid yn unig drwy eu pryder eu hunain y byddant yn methu eu harholiadau TGAU ond hefyd eu cyfeiriad at farn pobl eraill am eu llwyddiant ai peidio.

'Nid yw'r athrawon yn deall y myfyriwr'

'Ddim yn cael yr addysg iawn'

(Rhwystrau i PCET)

Mae'r newid i PCET yn eithaf bygythiol. Maent am deimlo'n ddiogel yn y coleg a rhoi cymorth, teimlo eu bod yn cael eu gwobrwyo am ymddygiad cadarnhaol *'a'i wneud yn llai brawychus'*. Efallai na fydd y cymorth ariannol, ymarferol a chymorth o ran trafndiaeth un i un a gânt yn yr ysgol uwchradd yn parhau ar ôl iddynt adael. Maent am wybod, er gwaethaf yr holl bryderon hyn, y bydd yn werth mynd i'r coleg. I rai pobl ifanc mae'r diwrnod arferol mor enfawr fel na allant weld yn ddigon pell ymlaen a chynllunio ar gyfer AB. Mae iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol yn cael effaith waeth ar rai pobl ifanc e.e. mae gallu mynd am dro yn un o brif ddyheadau presennol un dyn ifanc ar ôl llawdriniaeth ar ei asgwrn cefn.

Y PRIF BETHAU sy'n atal dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anabledau rhag ymgymryd â PCET;

1. *Straen.*
2. *Problemau o ran trafndiaeth; Cost ac argaeledd, Yn cael trafferth i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar ei ben ei hun.*
3. *Diffyg cymorth.*
4. *Dryswch - cyrsiau/popeth.*
5. *Teulu.*
6. *Mae'r gwaith yn rhy anodd - ddim beth roeddech yn ei ddisgwyl.*
7. *Arian.*
8. *Ddim yn teimlo eich bod yn perthyn - yn cadw draw oddi wrth eich ffrindiau.*
9. *Newid eich meddwl.*
10. *Presenoldeb ac arian.*
11. *Diffyg cyfleoedd swyddi.*
12. *Ddim yn diwallu eu hanghenion ac yn mynd yn ddig ac yn gwylltio. Maent yn cythruddo, yn teimlo straen ac ni allant ymdopi.*
13. *Materion iechyd meddwl.*
14. *Mae'n rhy debyg i'r ysgol.*
15. *Maent yn ymddwyn yn wael - yn bwlio rhywun.*

AWGRYMIADAU GWYCH ar gyfer aros mewn PCET ar gyfer dysgwyr ag anableddau;

1. *Cymorth un i un.*
2. *Mwy o ddewisiadau.*
3. *Help gyda blaengynllunio.*
4. *Aros mewn grŵp.*
5. *Edrych i'r dyfodol i gael swydd well.*
6. *Cymwysterau.*
7. *Ffrindiau (Gwneud ffrindiau).*
8. *Meithrin hyder pobl.*
9. *Eu helpu i deimlo'n ddiogel yn y coleg.*
10. *Yn helpu pobl i reoli eu hwyliau.*
11. *Dim cosbau - gwobrau i gyd.*
12. *Gwneud y profiad yn llai brawychus a dangos ei bod yn werth ei wneud.*

➤ Aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol

Mae anawsterau ariannol, peidio â chael digon o wybodaeth a chael y graddau cywir yn rhwystrau cyffredin i ymgymryd â PCET.

Ar gyfer y grŵp hwn codwyd problem gwahaniaethu ac roedd pobl ifanc yn cytuno y dylai pawb gael cyfle cyfartal a dylai fod gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod gwiriadau cydraddoldeb yn cael eu cynnal. Nodwyd bod diwylliant yn broblem hefyd, a nodwyd mai ateb i hyn oedd y canlynol;

'Eu perswadio drwy ddangos manteision addysg uwch e.e. mae cymwysterau gwell yn golygu swyddi gwell'

Nododd aelodau'r grŵp hwn eu bod am fynd i brifysgol a llwyddo mewn gyrfa dda, eu bod yn deall bod yn rhaid iddynt wneud yn dda yn eu harholiadau er mwyn i hyn ddigwydd. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd gwestiynu ai'r brifysgol yw'r llwybr cywir ar gyfer eu dewis gyrfa ac a fyddai swyddi ar gael ar ôl gorffen eu gradd.

'Cael cyngor ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael y tu allan i'r ysgol. Neu cael cymorth ychwanegol yn yr ysgol a'r tu allan iddi'

'A fyddwn yn cael yr un ymateb a chyfleoedd pe bawn yn dewis rhywbeth heblaw am brifysgol?'

Gwnaethant hefyd fynegi pryderon am y brifysgol yn enwedig yr agwedd ariannol arni a dyledion, a pha mor anodd y gallai'r gwaith fod.

Roedd rhai pobl ifanc yn teimlo bod ganddynt swyddi yn y busnes teuluol.

Y PRIF BETHAU sy'n atal dysgwyr o leiafrifoedd ethnig rhag ymgymryd â PCET;

1. Wedi eu cymell gan arian.
2. Dod o hyd i swydd barhaol.
3. Diffyg diddordeb yn eu cwrs.
4. 'Nid yw'n addas i mi'.
5. Llwyth gwaith.
6. Ddim yn gwneud yn dda.
7. Straen.
8. Helpu mewn busnes teuluol.
9. Hyder.
10. Haws canolbwyntio yn yr ysgol na'r coleg (ac fel arall).
11. Graddau yn gostwng.
12. Ddim yn gwybod beth maent am ei ddysgu.

PRIF RESYMAU dros aros mewn PCET;

1. Cyfleoedd/llwybrau dilyniant wedi eu gwarantu ar ôl gadael ysgol/coleg. Nid prifysgolion a phrentisiaethau yn unig.
2. Sesiynau rhagflas mewn prifysgolion ar gam cynnar.
3. Cynnig amrywiaeth o gyrsiau.
4. Paratoi pobl ifanc cyn 16 oed - dyheadau a hyder ac ati.
5. Cymorth ychwanegol - neu sut i gael gafaél arno - mae ar gael i bobl ac mae'n hysbys iddynt. Dylid trefnu cyfarfodydd cyson â thiwtoriaid a chynnig mwy o arweiniad.
6. Athrawon da, cefnogol ac ysbrydoledig.
7. LCA uwch (mwy o arian).

➤ Addysg Gymraeg

Cododd y grwpiau hyn bryderon ynghylch y newid o addysg cyfrwng Cymraeg i un Saesneg yn y brifysgol, neu o beidio â chael cwrs a gyflwynir yn Gymraeg a'r pryder y byddant yn colli eu gallu i siarad Cymraeg pe baent yn canolbwyntio ar Saesneg.

Roedd gan fyfyrwyr yn y grwpiau hyn ddyheadau uchel, yn eu cyflawniadau disgwylledig yn academiaidd a'u haddysg a'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae llawer yn gwybod pa yrfa yr hoffent ei dilyn a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i gyflawni hyn. Mae'r syniad mai'r brifysgol yw'r allwedd i lawer o'r gyrfaoedd hyn yn drech o lawer nag unrhyw sôn am gyrsiau galwedigaethol, i'r fath raddau fel bod un person ifanc yn sôn am ddilyn cwrs prentisiaeth fel rhywbeth negyddol.

AWGRYMIADAU GWYCH ar gyfer aros mewn PCET ar gyfer dysgwyr Cymraeg;

1. Ymuno â grwpiau o bobl sy'n siarad Cymraeg yn y Brifysgol.
2. Aros yn y chweched dosbarth fel y gallwch barhau â'ch addysg yn Gymraeg.
3. Mae angen i'r llywodraeth sicrhau bod pob ysgol yn cynnig yr un dewisiadau ar gyfer TGAU.
4. Trefnu eich amser a blaenoriaethu.

5. *Dileu ffioedd dysgu / benthyciadau myfyrwyr â gormod o log. Dylai benthyciadau myfyrwyr fod yn ddi-log.*
6. *Creu mwy o golegau a phrifysgolion sy'n cynnig pob math o gwrs.*

➤ **Dros 16 oed - blynyddoedd 11, 12 ac 13**

Gwnaethom siarad â phedwar grŵp arall ledled Cymru o fewn y grŵp oedran hwn.

Roedd rhai yn teimlo y gallai pwysau addysg fod yn ormod a soniwyd bod y gwaith ar gyfer Safon Uwch yn amlwg yn anoddach na TGAU a gallai wneud i rai myfyrwyr deimlo nad oeddent yn "ddigon da".

Soniwyd am broblemau ynghylch costau ac amseroedd trafndiaeth, ac roedd rhai myfyrwyr yn teimlo nad oedd bysiau cyhoeddus bob amser wedi'u hamserlenni'n dda ac nad oeddent yn cyd-fynd â'u dosbarthiadau yn y coleg. Hefyd, byddai'n anodd fforddio trafndiaeth pe bai eu rhieni dros y trothwy ar gyfer LCA.

Roedd rhai aelodau yn y grŵp oedran hwn yn teimlo y dylai mwy o gymorth fod ar gael i fyfyrwyr sy'n cael trafferth gydag unrhyw beth sy'n ymwneud â PCET. Roedd gan un ysgol weithiwr dynodedig a oedd yn cynnig cymorth ac arweiniad iddynt o ran PCET (ynghyd ag unrhyw beth arall) ac roedd y dysgwyr yn teimlo bod hyn wir yn eu helpu pan oedd problem yn codi gyda'u hastudiaethau.

Roedd galwad hefyd am wybodaeth glir a dibynadwy i unrhyw un a oedd yn cael trafferth i wneud penderfyniadau ynghylch PCET. Nodwyd ganddynt y dylai pob aelod o staff sy'n gweithio ym maes addysg feddu ar wybodaeth sylfaenol o'r system addysg, y dylai opsiynau gwahanol fod ar gael i fyfyrwyr a llwybrau addysgol gwahanol. Dywedwyd hefyd y gallai fod yn werth sicrhau bod gwybodaeth ddibynadwy ar gael i rieni nad ydynt erioed wedi bod i goleg na phrifysgol ac sydd â phryderon ynghylch ariannu astudiaethau eu plentyn.

AWGRYMIADAU gwyh ar gyfer aros mewn PCET

1. *Sianeli ar gyfer trafodaeth lle y gallwch fynd i gael cymorth gydag unrhyw beth (p'un a yw'n gysylltiedig â PCET ai peidio).*
2. *Mae staff cymorth yn fewnol yn ddefnyddiol iawn.*
3. *Rhagor o wybodaeth am y Brifysgol/Coleg o ffynhonnell ddilys - rhywun y gallwch ymddiried ynddo nad yw'n dibynnu ar fythau/sion (gan gyn-fyfyrwyr yn aml).*
4. *Cael gwybodaeth am ba lwybr sy'n iawn i chi - o ffynhonnell ddilys.*
5. *Dylai pawb sydd yn y system addysg fod yn fwy gwybodus am lwybrau i addysg bellach/uwch. Pa asiantaethau i gysylltu â nhw ac ati.*
6. *System goeden lle caiff gwybodaeth ei throsglwyddo - dylai pawb ar y goeden gael ei uwchsgilio gan gynnwys rhieni (nad ydynt efallai yn gwybod llawer am y Brifysgol ac ati).*
7. *Gwybodaeth ddibynadwy am arbed arian o ran goblygiadau cost o ran addysg. Pobl fel Martin Lewis ar YouTube.*
8. *Cymorth gwell y tu allan i wersi. Cymorth un-i-un os oes angen.*
9. *Amrywiaeth eang o gyrsiau.*

10. Amgylchedd neisach.
11. Sefydliad gwell/athrawon gwell/darpariaeth well.
12. Gwneud y cyrsiau yn fwy difyr. Mwy diddorol + Gwersi difyr - Cyfranogol.
13. Systemau cymorth gwell (teulu, arian, coleg).
14. Cyfleusterau gwell.
15. Llai o aseiniadau.

➤ **O dan 16 oed - 11 - 13 oed. Addysg Gymraeg.**

Roedd y prif grŵp o ddysgwyr o dan 16 oed y gwnaethom siarad â nhw mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Nodwyd mai'r prif rwystrau ar gyfer y grŵp hwn hefyd oedd arian, trafndiaeth, teulu a ffrindiau. Roedd yr atebion a awgrymwyd i oresgyn rhai o'r materion ariannol hyn yn cynnwys;

'Ceisio cynilo pan fyddwch yn gwybod eich bod am fynd i'r brifysgol; Edrych am fenthyciadau myfyrwyr a phan gewch swydd dda gallwch ddechrau ad-dalu'r benthyciad; Efallai y gallai'r llywodraeth leihau'r pris, byddai hyn yn annog mwy o bobl i fynd i brifysgol; Addysg am ddim; Gallai prifysgolion fenthyg mwy o arian i fyfyrwyr.'

Roedd rhwystrau canfyddedig y grŵp hwn yn debyg iawn i rai'r myfyrwyr dros 16 oed a'r tu allan i addysg orfodol. Mae eu hawgrymiadau gwych ar gyfer aros mewn PCET yn seiliedig ar yr hyn y maent wedi ei glywed gan eraill ynghylch bod mewn PCET ac yn seiliedig ar yr hyn a nodant fel eu hanghenion addysgol eu hunain.

AWGRYMIADAU gwych ar gyfer aros mewn PCET

1. Dylai myfyrwyr chwilio am gymorth - Dylai fod mwy o gymorth ar gael i fyfyrwyr.
2. Dylai fod mwy o gyfleoedd ar gyfer cyrsiau gwahanol fel dawnys, perfformio ac ati.
3. Os ydych yn ei chael hi'n anodd gwneud ffrindiau yn y coleg/prifysgol ymunwch â chymdeithasau, clybiau, timau chwaraeon ac ati.
4. Dylai fod mwy o fysiau rhad/am ddim ar gael.
5. Rhowch fwy o arian mewn addysg neu cynigiwch Addysg am Ddim heb orfod mynd i ddyled.
6. Neilltuwch fwy o amser i gysgu, naill ai ceisiwch fynd i'r gwely'n gynnar neu gallai Colegau a darpariaeth chweched dosbarth ddechrau'n hwyrach.
7. Dylai fod yn haws i bobl heb arian gael gafael ar addysg.
8. Gofynnwch i'ch teulu am gymorth pan fydd pethau'n dechrau mynd yn anodd.
9. Dylai fod mwy o ysgoloriaethau i leddfu'r pwysau ar fyfyrwyr.

➤ **Dysgwyr sy'n oedolion**

Ar gyfer y grŵp hwn roedd cost yn broblem wirioneddol. Nid costau'r cyrsiau eu hunain yn unig ond yn aml, gorfod blaenoriaethu ymrwymadau gwaith yn gyntaf, neu roi mwy o bwys ar gyfleoedd i wneud arian yn hytrach na hyfforddiant. Mae gan lawer o ddysgwyr sy'n oedolion ymrwymadau eraill fel teulu, morgais a biliau ac fel y cyfryw gwelir nad yw cyfleoedd addysg a hyfforddiant yn gyflawnadwy.



Oherwydd ffactorau tebyg roedd y grŵp hwn yn gweld gwerth mewn dysgu seiliedig ar waith, gyda chyfleoedd i wneud arian yn y swydd.

Roedd galw am addysg ratach, neu am ddim, i bawb, ni waeth beth fo'u hoedran, ac y dylai cyfleoedd fod ar gael a darpariaeth fod ar waith i unrhyw un hyfforddi ni waeth beth fo'i oedran.

Codwyd materion ynghylch y system budd-daliadau a dywedodd rhai pobl y gallai budd-daliadau gael eu hatal neu eu hatal dros dro pe baech yn penderfynu ailhyfforddi, a oedd yn golygu y byddai rhai pobl yn llai tebygol o ymgymryd ag addysg bellach. Roedd galw am rywfaint o drugaredd o ran hyn a chais bod llywodraeth/canolfannau gwaith yn gweld gwerth gwella rhagolygon swyddi drwy addysg.


Codwyd materion ynghylch hyder a phrofiad, a theimlwyd y byddai darparu gwybodaeth hawdd ei deall ynghyd â sefydliadau a gweithwyr cefnogol yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddai pobl â phroblemau o ran hyder yn cael hyfforddiant.

III. Chweched Dosbarth

Gwahaniaethau a chynnwys y Chweched Dosbarth yn y diwygiadau

Er mwyn deall sut roedd y dysgwyr yn teimlo ynghylch y chweched dosbarth, gwnaethom ofyn iddynt ddisgrifio'r gwahaniaethau a deimlent rhwng y chweched dosbarth a sefydliadau eraill. Yna pleidleisiodd y grwpiau ar b'un a ddylid cynnwys chweched dosbarth.

Dylid - 48%
Na ddylid - 33%
Efallai - 20%



➤ **Sylwadau ar dylid**

- *'Dylid ystyried bod y ddau yn gyfartal, ar hyn o bryd nid yw'r ddarpariaeth chweched dosbarth bob amser yn ystyried ei bod yn gyfartal'*
- *'Byddai mwy o arian yn cael ei neilltuo i'r ddarpariaeth pe bai'r cyfan o dan yr un ambarél/sefydliad'*
- *'Cadwch bethau'n syml a chynnwys pawb'*
- *'Yn cael fy nhrin yn fwy fel myfyriwr (hŷn) yn y coleg, ond yn fwy fel plentyn yn y chweched dosbarth'*

➤ **Sylwadau ar na ddylid**

- *'Efallai na chânt y sylw sydd eu hangen arnynt'*
- *'Mae eisoes yn syml ac yn gweithio fel y mae'*
- *'Mae'n dda bod y chweched dosbarth yn fwy cysylltiedig â'r ysgol ac yn fwy annibynnol'*
- *'Pe bai'r ddau yn debyg ac yn gorfod dilyn yr un rheolau a rheoliadau, cystal i chi fynd i'r coleg'*
- *'Bydd y chweched dosbarth bob amser yn ceisio eich annog yn fwy'*

➤ **Sylwadau ar efallai**

- *'Ddim yn poeni gormod'*
- *'Ddim wir yn gwneud gwahaniaeth'*
- *'Gall y ddau fod yr un peth'*

Mewn trafodaethau, roedd pobl ifanc yn credu y byddai mwy o arian yn cael ei fuddsoddi yn y ddarpariaeth chweched dosbarth pe bai'n cael ei chynnwys yn y diwygiadau. Mae hyn yn cysylltu â'u barn ar y ffaith nad oes digon o arian yn cael ei fuddsoddi yn y colegau yn eu profiad nhw. Mae pobl ifanc am deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu system addysg. Mae llawer yn dioddef o straen a phryder ac yn teimlo dan bwysau i wneud yn dda. Mae cost uchel lleoliadau mewn prifysgol yn golygu bod gan bobl ifanc ddisgwyliadau uchel o'u darparwr addysg, ond mae hyn hefyd yn berthnasol ar lefel chweched dosbarth a choleg.

Mae llawer o bobl ifanc yn gweld y chweched dosbarth fel estyniad o'r ysgol a'u bod yn gorfod dilyn yr un rheolau a rheoliadau a oedd ar waith yn y blynyddoedd iau. Maent yn cydnabod y gall aros ar gyfer y chweched dosbarth fod yn fuddiol am fod athrawon yn eich adnabod ac yn deall pa gymorth sydd ei angen, ond soniwyd hefyd bod pobl ifanc mewn rhai achosion yn teimlo bod angen dechrau o'r newydd.


Roeddent yn teimlo y byddai coleg yn cynnig profiadau a ffrindiau newydd ac, er y byddai'r diwrnod yn hirach, byddai'r awyrgylch yn fwy hamddenol, dim iwnifform benodol a mwy o ryddid i ystyried sut berson oeddent wrth iddynt dyfu'n hŷn.

Mae pobl ifanc yn gweld y chweched dosbarth fel rhan bwysig a dilys o addysg bellach, boed hynny o fewn fformat ysgol gyda llawer o reolau ysgol. Mae parhau â'r fformat hwn yn rhoi sicrwydd i lawer o bobl ifanc am ei fod yn rhywbeth sy'n gyfarwydd iddynt ac y maent yn ei ddeall; efallai na fydd llawer o bobl ifanc yn barod ar gyfer y pwysau ychwanegol a ddaw yn sgil mynd i goleg gwahanol neu sefydliad AB. Roedd llawer o bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad hwn o barhâd ac yn ofni y câi ei golli pe bai'r Comisiwn yn gyfrifol am gynllunio a monitro'r ddarpariaeth chweched dosbarth.

IV. Trefniadau Pontio

Effaith modelau newydd

Gwnaethom edrych ar sut olwg sydd ar PCET nawr a sut olwg allai fod arno yn y dyfodol yn dilyn y diwygiadau.



Trafododd y dysgwyr eu gobeithion a'u hofnau, eu dymuniadau a'u pryderon am PCET, eu haddysg barhaus a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

➤ Plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal

I'r rhai a oedd yn cael gofal roedd eu gobeithion yn seiliedig ar gael gwaith;

'Swydd y gallaf fyw arni a datblygu ynddi'

'Rwyf am fod yn ofalwr maeth ond dydw i ddim yn gwybod sut i wneud hynny!!'

'Rwyf am gael unrhyw swydd lle y caf fy nhalu'

Trafododd un o aelodau'r grŵp sut roedd am fynd i weithio ym maes gofal cymdeithasol ond nad oedd yn hoffi'r coleg a'i fod yn ansicr ynghylch opsiynau eraill. Roedd y rhwystr a nodwyd gan y grŵp hwn i gael gafael ar PCET yn un ariannol yn bennaf ac fel y cyfryw byddai'n bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau yn sicrhau nad oedd dim yn tarfu ar y cymorth ariannol. Byddai angen bod yn glir ynghylch unrhyw effeithiau posibl ar gymorth ariannol ar gyfer dysgwyr.

➤ **Cymunedau o sipsiwn a theithwyr**

Nododd y grŵp hwn o bobl ifanc fod cydberthnasau â'u cyfoedion ac athrawon yn yr ysgol yn ffactor pwysig ar gyfer aros mewn PCET. Roeddent yn bryderus nad oedd eu Saesneg yn ddigon da ar gyfer y byd addysg ac na fyddai pobl yn credu yn eu gallu academaidd. Roedd eu dyheadau yn cynnwys;

'Rwyf am fod yn llwyddiannus a mynd i'r ysgol a chael cymwysterau da'

'Hoffwn fynd i'r chweched dosbarth' 'Hoffwn fod yn rhywun o bwys yn y dyfodol'

Roedd y pryderon a nodwyd ganddynt yn cynnwys eu sgiliau iaith, arian a chael eu derbyn;

'Rwy'n poeni nad oes gennyf ddyfodol disglair' 'Ni fyddant yn fy nerbyn mewn chweched dosbarth nac ychwaith mewn prifysgol' 'Gadael, mynd ymhell o gartref'

Er mwyn diogelu buddiannau'r dysgwyr hyn mae'n bwysig ceisio tarfu cyn lleied â phosibl ar y cydberthnasau y byddant wedi eu sefydlu a bod yn glir ynghylch unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd er mwyn sicrhau eu bod cael y wybodaeth gywir a'u bod yn barod am newidiadau o'r fath.

➤ **Rhieni ifanc**

Gallai newidiadau i ble mae rhieni ifanc yn mynd i ddysgu gael effaith ar eu trefniadau gofal plant. Gellid lleihau'r effaith hon drwy drefnu gofal plant ar y safle neu sicrhau bod cymhorthdal ar gael ar gyfer trafndiaeth rhwng safleoedd coleg neu fod y drafnidiaeth ar gael am ddim ac ar adegau sy'n addas i'r dysgwyr. Wrth ystyried eu dyfodol mewn PCET nododd aelodau'r grŵp hwn yr hoffent ddychwelyd i ddysgu pan oedd eu plant yn yr ysgol, felly byddai ystyried cyfleusterau gofal plant a hyblygrwydd i ddysgwyr â phlant yn hollbwysig. Oherwydd eu cyfrifoldebau teuluol, byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau i PCET sicrhau nad oeddent yn effeithio ar eu cyllid;

'Gwnewch yn siŵr na chawn ein gadael heb arian os gwneir newidiadau'.

➤ **Dysgwyr anabl**

Roedd rhai o'r pryderon a amlygwyd gan y grŵp hwn ar gyfer dyfodol eu haddysg yn cynnwys peidio â chael cymorth un i un, cyllid, eu hiechyd, cyfrifoldebau fel gofalwr, colli gwersi/arholiadau, ddim yn gwybod am y cyfleoedd ar ôl ysgol. Gellid bod wedi lleihau'r pryderon hyn drwy gyfleu yn glir y cymorth sydd ar gael cyn i bobl ifanc orffen yn yr ysgol, bod yn glir ynghylch opsiynau PCET ac nad astudiaeth academaidd yw'r unig opsiwn a bod yn hyblyg a llawn cydymdeimlad tuag at ofalwyr ifanc.

➤ **Aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol**

Codwyd gwahaniaethu wrth ddethol pobl ar gyrsiau hefyd fel rhywbeth a oedd yn achosi pryder i'r grŵp hwn. Awgrymwyd y dylid defnyddio proses ddethol anhysbys ac y dylai gwiriadau parhaus ar gyfer cydraddoldeb fod ar waith. Awgrymodd y grŵp hwn hefyd y dylai pobl ifanc fod yn barod cyn iddynt gyrraedd 16 oed drwy edrych ar eu dyheadau a'u helpu i fagu hyder.

➤ **Dysgwyr Addysg Gymraeg**

Mae darparu cyfleoedd i astudio yn Gymraeg yn flaenoriaeth uchel i'r grŵp hwn, ac o ganlyniad rhoddir pwys mawr ar y ddarpariaeth chweched dosbarth yn eu hysgol cyfrwng Cymraeg. Roedd llawer o'r pryderon a amlygwyd gan y grŵp hwn yn ymwneud ag argaeledd eu dewisiadau yn Gymraeg a'u bod yn llwyddo gyda'r llwybr a ddewiswyd ganddynt.

➤ **Grwpiau eraill**

Nodwyd bod trafndiaeth yn broblem i nifer fawr o ddsygyr y gwnaethom siarad â nhw. Gall newidiadau i ble maent yn mynd i ddysgu roi mwy o bwysau ar ddsygyr ac ar eu sefyllfa ariannol i allu teithio i leoliadau gwahanol. Byddai darparu trafndiaeth â chymhorthdal i gyd-fynd ag oriau'r amserlen yn helpu i leddfu'r pwysau hyn.


Mae'r pryderon **ariannol** yn uchel i bob dysgwr. Bydd angen i unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r cynigion hyn sicrhau nad effeithir ar gyllid dysgwr. Nododd rhai o'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw y gall newid mewn amgylchiadau eu gadael heb unrhyw arian ac o ganlyniad byddai hyn yn eu hatal rhag mynd i goleg neu Brifysgol.

Soniodd cyfran uchel o'r dysgwyr y gwnaethom siarad â nhw fod **diffyg hunanbarch a hyder** yn rhwystr i gael PCET. Dylai unrhyw newidiadau i'w haddysg ddigwydd gan gadw hyn mewn cof a chynnwys sesiynau meithrin hunanbarch a hyder yn y broses er mwyn helpu i leddfu'r pwysau ar fyfyrwyr a sicrhau y terfir cyn lleied â phosibl arnynt.

Nid yw'r rhan fwyaf o ddsygyr yn ystyried bod **newidiadau i ddewisiadau cyrsiau nac enghreifftiau o gau colegau** yn risg. Mae ganddynt hyder yn y sefydliadau ac nid ydynt yn meddwl y bydd unrhyw beth yn newid. Felly, byddai angen i unrhyw newidiadau a allai effeithio ar unrhyw ddsygwr gael eu cyfleu yn glir fel eu bod yn ymwybodol o unrhyw darfu posibl.

O blith y rhai a holwyd byddai'n well gan 60% pe bai unrhyw newidiadau yn digwydd yn gyflym, byddai'n well gan 8% pe baent yn digwydd yn araf ac nid oedd 32% yn gwybod neu gwnaethant ddewis peidio ag ateb.


Byddai'n well gan lawer o'r bobl ifanc weld newid cyflym, maent yn hoffi'r ffaith y byddai'r cyfan drosodd yn gynt ac o ganlyniad y byddech yn gallu addasu i'r newid newydd yn gynt.



V. Yr Iaith Gymraeg

Pwysigrwydd opsiynau Cymraeg

Trafododd dysgwyr pa mor bwysig oedd opsiynau Cymraeg iddyn nhw yn eu haddysg.



➤ Cymunedau o sipsiwn a theithwyr

Nid ystyrir bod dysgu na siarad Cymraeg yn flaenoriaeth i'r rhai o'r gymuned o sipsiwn a theithwyr y gwnaethom siarad â nhw.

Nid yw rhai pobl ifanc yn deall y rhesymeg dros ddysgu Cymraeg, gan eu bod yn credu bod ieithoedd eraill yn fwy buddiol ac yn cwestiynu sut y câi ei defnyddio yn nes ymlaen yn eu bywyd. Ymhlith y sylwadau a wnaed roedd y canlynol;

'Rydym eisoes wedi dysgu cymaint o ieithoedd'

'Pam mae'n rhaid i ni ddysgu Cymraeg'

'Os yw pawb yn deall Saesneg pam dysgu Cymraeg?'

'Sut y byddwch yn ei defnyddio yn nes ymlaen mewn bywyd'

➤ Rhieni ifanc

Roedd gan y grŵp hwn farn gymysg am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn seiliedig ar ble y byddent yn ei defnyddio. Roedd rhieni â phlant mewn addysg Gymraeg yn teimlo ei bod yn bwysig iddynt ddysgu Cymraeg i gefnogi addysg eu plant;

'Mae unrhyw iaith yn fanteisiol.'

'Dylai fod cyfleoedd gwell i rieni sydd am ddysgu Cymraeg, fel rhai lleol yn y gymuned gyda gofal plant yn cael ei ddarparu.'

'Mae fy mab yn mynd i ysgol Gymraeg ac mae angen i mi ddysgu'r iaith er ei fwyn ef'

'Rwyf am allu helpu gyda gwaith cartref Cymraeg'

➤ **Dysgwyr anabl**

Nid yw pobl ifanc ag anghenion ychwanegol ychwaith yn gweld perthnasedd y Gymraeg. Mewn un grŵp, roedd ychydig o dan 60% o bobl ifanc yn teimlo nad oedd yn bwysig iddynt ddysgu Cymraeg. Soniwyd ei bod yn anodd ei dysgu ac roeddent yn cael trafferth i'w dysgu, er gwaethaf brwdfrydedd amlwg eu hathrawon am bwysigrwydd yr iaith. Gellid dweud bod y bobl ifanc hyn yn cael trafferth gydag addysg academiaidd sylfaenol ac y byddai gorfod dysgu yn Gymraeg yn ormod iddynt.

➤ **Aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol**

Roedd y grŵp hwn yn teimlo y dylent gael y dewis felly dylai fod yn hawl i ddysgu yn Gymraeg. Roedd pob un o'r aelodau yn teimlo ei fod yn bwysig iawn sicrhau bod opsiynau Cymraeg ar gael mewn PCET.

➤ **Addysg Gymraeg**

I ddysgwyr mewn ysgol Gymraeg roedd yr iaith Gymraeg yn sicr yn flaenoriaeth. Roedd newid o addysg cyfrwng Cymraeg i un Saesneg mewn prifysgol, neu beidio â chael cwrs yn Gymraeg yn bryder cyson i'r grwpiau hyn. Roedd rhai o'r pryderon a amlygwyd gan y grŵp hwn yn cynnwys;

'Colli'r Gymraeg os ewch i'r coleg'

'Ddim yn gwneud y cwrs rwyf am ei wneud yn Gymraeg'

'Iaith - mae'r brifysgol yn un Saesneg (mae'r ysgol yn un Gymraeg)'

'Mae'r iaith Gymraeg yn marw'

'Rwyf wedi gwneud gwyddoniaeth yn Gymraeg, pa brifysgolion sy'n gwneud gwyddoniaeth yn Gymraeg?!' 'Does dim digon o gyrsiau Cymraeg ar gael mewn prifysgolion'

'Efallai y bydd Rhydychen yn llai ffafriol tuag at bobl sy'n siarad Cymraeg, dim ond 7 person sy'n siarad Cymraeg sy'n mynd i Rydychen/Caergrawnt'

Mewn trafodaeth ar ddiogelu'r iaith Gymraeg a chyfleoedd mewn PCET ar gyfer defnyddio a dysgu Cymraeg, dangosodd ddysgwyr frwdfrydedd mawr dros achub y Gymraeg, a manteisio ar y cyfleoedd cynyddol yng Nghymru ar gyfer siaradwyr Cymraeg dwyieithog. Ac eto, roeddent hefyd yn cydnabod bod cyfyngiadau wrth ddysgu pynciau fel mathemateg a gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae llawer o bobl ifanc yn sôn eu bod am astudio yn Gymraeg a pha mor falch ydynt eu bod yn siarad Cymraeg. Maent am annog eraill i siarad yr iaith hefyd.

'Dros 2 filiwn o bobl yn siarad Cymraeg erbyn 2050' (Yn dymuno)

'Bydd prifysgolion gwell yng Nghymru, oherwydd rhaid i mi fynd i Rydychen os wyf am gael cwrs da, ond rwyf am astudio yn Gymraeg' (Yn dymuno)

Dangosodd y grŵp frwdfrydedd mawr dros ddatblygu'r cyfleoedd ar gyfer y Gymraeg ymhellach ond gwnaethant gydnabod y dylai fod yn ddewis. Roedd y sylwadau'n cynnwys;

'Mae llawer mwy o ysgolion cyfrwng Saesneg a mwy o bobl yn dysgu Saesneg felly dylai fod yn fwy cyfartal'

'Mae'n bwysig blaenoriaethu'r Gymraeg, mae'r iaith yn marw'

'Dylech fod yn gallu siarad Cymraeg ond ni ddylech gael eich gorfodi i ddysgu'r iaith'

'Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud popeth yn ddwyieithog nawr, a dylai sefydliadau yn y sector preifat wneud yr un peth os ydynt yn gweithio yng Nghymru'.

'Dylai fod mwy o ysgolion Cymraeg, efallai cymaint â rhai Saesneg'

➤ **Dros 16 oed - blynyddoedd 11, 12 ac 13**

Roedd un grŵp mewn coleg cyfrwng Saesneg yn teimlo y dylai'r Gymraeg gael ei diogelu gan y diwygiadau ac y dylai gael ei hannog mewn sefydliadau PCET;

'Ni ddylai gael ei gorfodi ond dylid rhoi'r cyfle i ddysgu Cymraeg'

'Dylai gwersi Cymraeg barhau yr holl ffordd drwy'r coleg'

'Dylai fod ar frig dysgu penodol'

'Gallai fod yn rhy anodd i bobl sy'n dysgu Cymraeg ymdopi â phopeth'

'Gall dysgu Cymraeg helpu gyda gyrfaedd yn y dyfodol'

6. Casgliadau ac Argymhellion

I. Diogelu, cefnogi a rheoli dysgwyr

Mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o'r strwythurau sydd ar waith ar hyn o bryd, sut y gall y rhain newid a sut y gallai hyn effeithio ar eu haddysg a'u dyfodol. Roedd dyheadau llawer o'r dysgwyr yn y dyfodol y gwnaethom siarad â nhw yn cynnwys bod yn llwyddiannus yn eu haddysg. Mae angen proses agored, gonest a thryloyw er mwyn i ddysgwyr baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau. Ym marn dysgwyr, cyfrifoldeb y darparwyr addysg yw eu diogelu a sicrhau na fydd newidiadau nas rhagwelir o ganlyniad i'r diwygiadau hyn yn tarfu ar eu cynlluniau addysgol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, anabledau neu sy'n goresgyn rhwystrau diwylliannol i addysg. Mae ymddiriedaeth a hyder yn eu haddysg, a'u darparwyr addysg, yn hollbwysig ac fel y cyfryw mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig ymlaen llaw a chael eu hysbysu ar bob cam o'r newidiadau.

II. Ehangu Mynediad a chyfranogiad

Drwy gydol yr ymgyngoriad hwn mae pob grŵp wedi nodi bod cyllid, trafndiaeth a chyflawniadau academaidd yn rhwystrau cyffredin i ymgymryd â PCET. I lawer o bobl, ystyrir bod benthyciadau a chyflogaeth yn atebion i rwystrau ariannol. Fodd bynnag, i'r rhai â chyfrifoldebau ychwanegol, neu heb unrhyw gymorth teuluol, byddai'n well ganddynt ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith i gefnogi eu hunain tra'n dysgu. Ac eto, nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer dysgu seiliedig ar waith yn caniatáu i bobl ifanc allu cefnogi eu hunain wrth ddilyn y cyrsiau hyn. Argymhellir bod dysgu seiliedig ar waith yn darparu isafswm cyflog neu gyflog byw i alluogi'r rhai sydd â chyfrifoldebau ychwanegol, anghenion dysgu, anabledau neu bobl o ardaloedd difreintiedig i wella eu rhagolygon tra'n cefnogi eu hunain yn ariannol.

Roedd materion eraill a amlygwyd gan y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ymwneud â'r cymorth sydd ar gael. Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl a chynnal parhad i'r dysgwyr hyn, dylid ystyried eu hanghenion cymorth, a byddai rhoi gwybodaeth glir iddynt tra'u bod mewn addysg orfodol ynghylch pa gymorth fydd ar gael mewn PCET yn chwalu rhai o'r pryderon a'r rhwystrau a wynebant.

Roedd llawer o'r materion a godwyd gyda grwpiau â nodweddion gwarchoddedig yn ymwneud â herio traddodiadau diwylliannol nad ydynt yn gweld gwerth addysg. Byddai cyfleu negeseuon clir i deuluoedd am fanteision PCET ynghyd â negeseuon clir i ddysgwyr am eu gallu i gyflawni, yn ddefnyddiol i'r dysgwyr yn y grwpiau hyn er mwyn iddynt allu symud yn hyderus tuag at PCET a chyflawni eu dyheadau.

III. Chweched Dosbarth

Roedd gwahaniaeth barn o ran p'un a ddylid cynnwys y chweched dosbarth yn y diwygiadau hyn. Roedd y rhai a oedd o blaid ei chynnwys am weld darpariaeth chweched dosbarth a cholegau yn cael eu trin yr un fath ac roeddent yn gobeithio y byddai ariannu'r sefydliadau hyn yn lefelu pe bai'r ddau beth yn cael eu cynnwys yn y diwygiadau hyn.

IV. Trefniadau Pontio

Gwelwyd trefniadau pontio fel rhywbeth a ddylai gael ei wneud yn gyflym ond mewn ffordd agored, gonest a thryloyw i ddysgwyr. Byddai hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn barod ar gyfer y newidiadau pan fyddant yn digwydd. I lawer, mae sicrhau nad effeithir ar drefniadau ariannol hefyd yn bwysig iawn.

V. Yr Iaith Gymraeg

Ym marn llawer o ddysgwyr, ystyrir bod yr iaith Gymraeg yn rhywbeth a ddylai gael ei diogelu a'i datblygu ymhellach. Fodd bynnag, i'r rhai ag anghenion ychwanegol neu'r rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf nid yw dysgu Cymraeg yn flaenoriaeth iddynt. Mae'r rhai sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn poeni na fyddant yn gallu parhau â'u haddysg yn Gymraeg ac mae eu haddysg yn y dyfodol felly yn peri gofid iddynt. Mae buddsoddi drwy PCET drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i'r rhai sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Cyffredinol

Fel y gallwn weld uchod, bydd bod yn agored, gonest a thryloyw yn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau a wynebant o ganlyniad i'r diwygiadau arfaethedig. Nid oedd llawer o'r dysgwyr y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r diwygiadau na hyd yn oed yr adran sy'n goruchwyllo PCET yng Nghymru. Rhan o'n hargymhellion fyddai sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn cael ei symleiddio fel bod dysgwyr yn cael y wybodaeth gywir ac yn gallu cymryd rhan ystyrllon yn natblygiad y sector sy'n cael y fath effaith ar eu haddysg yn y dyfodol. Roedd y dysgwyr y gwnaethom siarad â nhw yn falch o fod yn rhan o'r ymgynghoriad ac maent yn awyddus i weld sut mae eu cyfranogiad yn cael effaith ar y diwygiadau.